Canllaw i wirfoddolwyr ar sut i gofrestru cyfrif ar-lein

Fel gwirfoddolwr mewn clwb awyr agored mi allwch fanteisio ar gofrestru cyfrif gyda'r Bartneriaeth Awyr Agored.

- Mi allwch nodi UN clwb awyr agored i bob UN cyfeiriad e-bost
- Yn wahanol i'r ffurflenni papur gynt, mi fydd gofyn i chi lenwi eich manylion unwaith yn unig
- Diweddaru eich oriau gwirfoddoli a'ch proffil
- Talu cyfraniadau ar gyfer y cyrsiau ar-lein

Dilynwch y camau isod i ddechrau:

- Ymwelwch â www.partneriaeth-awyr-agored.co.uk ac i fewngofnodi, cliciwch ar y bocs melyn ar dop y dudalen ar y dde. Byddwch wedyn yn gweld y sgrin isod.



- Cliciwch ar **cofrestru aelod** a chwblhewch y ffurflen (Nodwch: eich cyfeiriad e-bost fydd eich enw mewngofnodi yn y dyfodol) gan ddilyn y cyfarwyddiadau a chwblhau pob rhan.



- Byddwch wedyn yn derbyn e-bost gweithredu cyfrif i gadarnhau eich cyfeiriad e-bost. Cliciwch ar y ddolen yn yr e-bost (Os na welwch chi'r e-bost, edrychwch yn eich post sothach)



- Unwaith byddwch wedi gweithredu eich cyfrif, ewch yn ôl i'r rhan mewngofnodi ar y wefan gan ddefnyddio eich manylion mewngofnodi a chwblhau'r broses cofrestru.





- Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r ffurflen ar-lein a chlicio **Arbed**, mi fydd angen i ysgrifennydd y clwb fewngofnodi a'ch cymeradwyo.

- Ar ôl i chi gael eich cymeradwyo gan ysgrifennydd eich clwb, mi fyddwch yn gallu mewngofnodi a phori drwy'r ardal i wirfoddolwyr.

- Byddwch yn gweld y dudalen cartref isod.



- Cyrsiau: Dewisiwch y cwrs yr ydych yn dymuno mynd arno. Os na allwch weld y cwrs, cysylltwch â ni



- Fy mhryniadau: Yma byddwch yn gweld rhestr o'r cyrsiau rydych wedi talu amdanynt

- Fy Mhroffil: Diweddaru eich manylion

- Gosodiadau: Diweddaru'ch ebost a'ch cyfrinair

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, yna cysylltwch â simon.jones@partneriaeth-awyr-agored.co.uk neu lowri.hurdman@partneriaeth-awyr-agored.co.uk